**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING SUB-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD MERCHER, GORFFENNAF 9fed 2014**

**WEDNESDAY, 9th of JULY 2014**

Lleoliad / Location:

**YSTAFELL FRONDEG ROOM**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**
**PWLLHELI**

**10:30am**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS (01286) 679 878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

*Dosbarthwyd/Distributed: 14*

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## LICENSING SUB-COMMITTEE

**Aelodaeth / Membership (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Peter Read (Cadeirydd/Chairman)

Ann Williams

Llywarch Bowen Jones

W Tudor Owen (wrth gefn/reserve)

**Aelod Lleol / Local Member**

Cynghorydd/Councillor

Angela Russell

# RHAGLEN

1. **CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

   **Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.**

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   **Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.**

3. **MATERION BRYS**

   **Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.**

4. **CAIS AM DRWYDDED EIDDO:**

   **'GLASS BUTTER BEACH,**

   **Ystyried y cais uchod**

# AGENDA

1. **WELCOME and APOLOGIES**

   **To receive any apologies for absence.**

2. **DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

   **To receive any declaration of personal interest.**

3. **URGENT ITEMS**

   **To note any items that is a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.**

4. **APPLICATION FOR A PREMISES LICENCE:**

   **GLASS BUTTER BEACH**

   **To consider the above application**

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

## PROCEDURES FOR LICENSING VARIATION HEARINGS

1. A written report will be presented by the Licensing Section (with recommendation).

2. Members of the Sub-committee may ask questions of the Council's representative.

3. At the Chairman's discretion the applicant and/or his representative may ask questions of the Council's representative.

4. The applicant and/or his representative may expand upon the application and call witnesses

5. Members of the Sub-committee may ask questions of the applicant and/or his representative

6. There will be an invitation for each consultee to support any written observations

7. Members of the Sub-committee may ask questions of the consultees.

8. At the Chairman's discretion the Council's representative and the applicant or his representative may summarise their case.

All are reminded of the four principles of the Licensing Act 2003 to be considered in all deliberations, namely:

1) **Crime and Disorder Prevention;**
2) **Public Safety;**
3) **Public Nuisance Prevention; and**
4) **Protection of Children from Harm.**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **9 GORFFENNAF 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – GLASS BUTTER BEACH, CARREG Y DEFAID, LLANBEDROG** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer Gwyl Glass Butter Beach, Carreg Y Defaid, Llanbedrog LL53 7NL gan Mark Elliot Durston, Y Berllan, Abersoch, LL53 7LD. Mae trwydded wedi bod mewn bodolaeth ar gyfer yr ŵyl mewn lleoliad arall.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio, cerddoriaeth fyw, dramâu, dangos ffilmiau, perfformiadau dawns a chyflenwi lluniaeth hwyr y nos. Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| **Gweithgareddau trwyddedig/ Licensable Activities** | **Oriau/Hours** |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours:** | Dydd Iau/Thursday 12:00-00:00<br>Hyd at/until<br>Dydd Sul/Sunday 00:00-19:00 |
| **Dramau/Plays** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Iau/Thursday 17:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-00:00 |
| **Ffilmiau/Films** - Dan Do/Indoors | Dydd Iau/Thursday 17:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-00:00 |
| **Cerddoriaeth Fyw/Live Music** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Iau/Thursday 17:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-00:00 |
| **Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music -** Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Iau/Thursday 17:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-00:00 |
| **Perfformiadau Dawns/Performances of Dance** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Iau/Thursday 17:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-00:00 |
| **Darparu lluniaeth hwyr y nos/ Late Night Refreshments -** Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Iau/Thursday 23:00-05:00<br>Dydd Gwener/Friday 23:00-05:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-05:00 |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol** - Ar ac Oddi ar yr Eiddo/On and Off Premises | Dydd Iau/Thursday 14:00-23:30<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-00:00 |

**Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

- Bwriedir cydymffurfio gyda gofynion Iechyd a Diogelwch a Diogelwch Tan ac unrhyw ofynion a osodir gan y Grwp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau
- Bwriedir cydweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a chwmni diogelwch proffesiynol i reoli trosedd ac anrhefn
- Defnydd o Deledu Cylch Cyfyng ar y safle
- Bwriedir cyflwyno Cynllun Iechyd a Diogelwch ac apwyntio swyddog diogelwch
- Fe fydd Asesiad Risg yn cael ei gyflwyno.
- Bwriad i weithredu polisi 'Challenge 21' a gwerthiant alcohol drwy gyflwyno Cerdyn Adnabod
- Cyflogi Cwmni Rheoli Sŵn proffesiynol i reoli sŵn yn unol â gofynion yr Uned Gwarchod y Cyhoedd
- Cyflogi Cwmni Gwaredu Gwastraff proffesiynol
- Mesurau i sicrhau na fydd mynediad i unigolion o dan 16 os na fyddent yn mynychu gydag oedolyn dros 21.
- Gweithredir polisi yn y digwyddiad i hyrwyddo artistiaid i osgoi defnyddio iaith anweddus.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

**YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| | |
| Cyngor Cymuned | Llythyr - sylwadau |
| Heddlu | 1 e bost - dim gwrthwynebiad |
| Preswylydd cyfagos | 2 e bost( gan yr un preswylydd) - gwrthwynebu |
| Cyngor Gwynedd – Gwarchod y Cyhoedd | 1 e bost - sylwadau, ac amodau rheoli sŵn |

**Sylwadau – Cyngor Cymuned**

Derbyniwyd sylwadau ar y cais gan Gyngor Cymuned Llanbedrog nad oedd ganddynt lawer o wybodaeth am y cais; ond eu bod wedi bod yn gefnogol i'r ŵyl yn y gorffennol. Gwneir y sylw nad yw'r Cyngor yn gefnogol i werthiant alcohol tu allan i'r brif safle ar y traeth.

**Gwrthwynebiad - preswylydd cyfagos**

Derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiad preswylydd cyfagos ar ffurf 2 e bost . Mae'r preswylydd yn byw yn agos i'r eiddo trwyddedig arfaethedig ac yn bryderus fod caniatáu y cais yn mynd i danseilio'r pedwar amcan trwyddedu sef -

- Atal Trosedd ac anrhefn
- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelwch y cyhoedd
- Amddiffyn plant rhag niwed

Nodir yn e byst y preswylydd ei fod wedi profi problemau gyda'r ŵyl yn ei safle blaenorol, megis -

1. Giatiau a ffens ei eiddo yn cael eu difrodi gan rai sy'n mynychu'r ŵyl
2. Tarfu yn hwyr yn y nos tan tua 6 y bore gan bobl wedi meddwi yn pasio heibio ei eiddo yn swnllyd.
3. Cerddoriaeth yn cael ei chware tu allan i oriau'r drwydded
4. Pobl yn defnyddio'r traeth fel toiled
5. Niwsans sŵn ers dwy flynedd
6. Iaith anweddus drwy'r uchel seinydd
7. Plant yn cael eu hamlygu i sŵn

**<u>Sylwadau'r Heddlu</u>**

Nid oes gan yr Heddlu dystiolaeth i wrthwynebu'r cais.

**<u>Sylwadau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd</u>**

Derbyniwyd e bost gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn cadarnhau nad oes gwrthwynebiad i'r cais; ynghyd ac amodau sŵn er mwyn gwarchod mwynderau trigolion lleol.

Gweler y manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad.

**<u>ARGYMHELLIAD</u>**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.